UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

DATGANIAD I'R WASG / PRESS RELEASE (English version follows)

10 Tachwedd / November 2009

Addysg yng Ngwynedd – y dyfodol?

Mae Pwyllgor Gwaith sirol Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) yng Ngwynedd yn galw am drafodaeth gyhoeddus ar ddyfodol addysg yn y sir, ac yn trefnu cyfres o gyfarfodydd i'w haelodau yn Nolgellau, Pwllheli a Chaernarfon yn ystod mis Tachwedd. Daw'r alwad yn sgil rhyddhau gwybodaeth am effaith uniongyrchol y toriadau posib yn y gyllideb addysg ar ysgolion unigol.

"Mae sôn am doriadau o isafswm o £3.1 miliwn, heb sôn am y posibilrwydd erchyll o £6.3m, yn frawychus," **meddai Eryl Owain, Swyddog Maes y Gogledd i UCAC**.

"Rhaid i Gynghorwyr Sir ac Aelodau'r Cynulliad beidio â thwyllo'u hunain y gellir gweithredu toriadau yn y byd addysg yn ddi-boen. Mae ysgolion eisoes wedi torri gwariant i'r byw; byddai rhagor o doriadau'n cael effaith uniongyrchol ar safonau addysgol yn y sir. Does dim arbedion effeithlonrwydd pellach y gellir eu gweithredu, naill ai'n ganolog yn adran addysg y Cyngor Sir na chwaith ar lefel ysgolion unigol."

Yn ôl **Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC, Elaine Edwards**, "Mae'n gwbl annerbyniol bod ysgolion o'r un maint ac o'r un cefndir yn derbyn hyd at £500 y disgybl yn llai o arian bob blwyddyn mewn rhai awdurdodau o gymharu ag eraill. Mae hyn yn amlwg yn annheg.

"Mae angen arweiniad gan Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau arian digonol i ddatblygu cyfundrefn addysg sydd yn cynnig y gorau i blant a phobl ifainc Cymru ac i sicrhau cysondeb rhwng siroedd â'i gilydd," ychwanegodd.

Mae UCAC yng Ngwynedd yn siomedig dros ben yn y cynnydd isel iawn o 1.1% yn y grant y bydd y sir yn ei dderbyn o Gaerdydd. "Unwaith eto, mae Gwynedd wedi derbyn setliad sydd gyda'r isaf yng Nghymru," meddai Eryl Owain. "Bydd gan gynghorwyr Gwynedd benderfyniadau anodd dros y misoedd i ddod ond mae'n bwysig iddynt sylweddoli y bydd pris i'w dalu o leihau'r arian fydd ar gael i ysgolion. Byddai swyddi athrawon yn cael eu colli a byddai hynny'n anorfod yn cael effaith ar allu ysgolion i ddarparu addysg gyflawn o'r safon uchaf."

Mae UCAC yn galw ar bob cynghorydd a phob Aelod Cynulliad o Wynedd i fod yn ymwybodol o ba mor fregus yw sefyllfa ariannol ysgolion o bob math, uwchradd a chynradd, bach a mawr ar draws y sir.

DIWEDD

Nodiadau

1. Bydd Bwrdd y Cyngor yn cyfarfod ar 24 Tachwedd i drafod maint toriadau'r gwahanol adrannau. Mae'r Bwrdd yn ystyried toriadau o naill ai £3.1 miliwn neu £6.3 miliwn o gyllidebau ysgolion.

2. Bydd y Pwyllgor Craffu (Datblygu) [sy'n gyfrifol am Addysg] yn cyfarfod ar 1 Rhagfyr a'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar 17 Rhagfyr.

3. Mae Adroddiad gan Bennaeth Gwasanaeth Addysg Gwynedd wedi dynodi beth fyddai effeithiau toriadau o £3.1 neu £6.3 ar ysgolion unigol. Dyma rai enghreifftiau:

Cyllideb bresennol	**Toriad £3.1m**	**Toriad £6.3m**
£1 miliwn	£78,000	£134,000
£450,000	£35,000	£ 60,000
£200,00	£18,000	£ 32,000

4. Dyma'r cyfarfodydd ar gyfer aelodau UCAC (pob un am 4.30 pm):

   - Ysgol y Gader, Dolgellau ar 12 Tachwedd
   - Ysgol y Gelli, Caernarfon ar 16 Tachwedd
   - Ysgol Cymerau, Pwllheli ar 18 Tachwedd

Am fanylion pellach cysylltwch â:

Eryl Owain (Swyddog Maes y Gogledd) ar 01970 639950 / 07866 928284

Elaine Edwards (Ysgrifennydd Cyffredinol) ar 01970 639950 / 07787 573707

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

PRESS RELEASE

10 November

Education in Gwynedd – what future?

The Gwynedd Executive Committee of UCAC teachers' union has called for a public debate on the future of education in the county, and is organising a series of meetings across the county for its members this month. The call comes following the release of detailed figures indicating the direct effects of cuts in the education budget on individual schools.

"Talk of minimum cuts of £3.1 million, not to mention the catastrophic possibility of £6.3, is alarming." said **Eryl Owain, the union's North Wales Field Officer**.

"County Councillors and Assembly Members should not be deceived into thinking that these would be painless cuts. Schools have already stripped expenditure to the bone; more cuts would have a direct effect on educational standards across the county. Further efficiency savings are impossible, either centrally in Gwynedd's education department or at school level."

According to **UCAC's General Secretary, Elaine Edwards**, "It is unacceptable that schools of the same type and with a similar background receive up to £500 less per pupil in some authorities than in others. This is clearly unfair.

"Direction is needed from the Assembly Government to ensure that the education system is funded sufficiently to offer the very best to the children and young people of Wales and to ensure consistency from one county to another," she added.

UCAC is disappointed that Gwynedd has been awarded a low increase of only 1.1% in the grant that it receives from Cardiff. "Once again, Gwynedd has received one of the lowest settlements in Wales," said Eryl Owain. "Gwynedd councillors will have difficult choices to make over the coming months and it is vital that they realise that there will be a price to be paid if less money is given to schools. Teaching jobs would be lost and that would inevitably have an effect on the delivery of high class education."

UCAC is calling on every councillor and Assembly Member in Gwynedd to be aware of the fragility of the financial position of all types of schools - secondary and primary, large or small across the county.

ENDS

Notes

1. The Council's Board will meet on 24 November to consider the cuts required of each department. The Board will consider possible cuts of either £3.1 million or £6.3 from the schools budget.

2. The Scrutiny Committee (Development) [which is responsible for education] will meet on 1 December and the Children and Young People Scrutiny Committee on 17 December.

3. A report by the Head of Education Services has indicated the effects of cuts of £3.1 million and £6.3 on individual schools. These are some examples:

Current budget	Cut of £3.1m	Cut of £6.3m
£1 million	£78,000	£134,000
£450,000	£35,000	£ 60,000
£200,000	£18,000	£ 32,000

4. Meetings for UCAC members (all at 4.30pm):

   - Ysgol y Gader, Dolgellau on 12 November
   - Ysgol y Gelli, Caernarfon on 16 November
   - Ysgol Cymerau, Pwllheli on 18 November

For further information, contact:

Eryl Owain (North Wales Field Officer) on 01970 639950 / 07866 928284

Elaine Edwards (General Secretary) on 01970 639950 / 07787 573707